Cardiff Metropolitan University | Prifysgol Metropolitan Caerdydd

MetCaerdydd CardiffMet
2023
*Wythnos* groeso
Welcome *week*

*Ôl-Raddedig*

# Llawlyfr

## TAR UWCHRADD A CHYNRADD

Ysgol Addysg a Pholisi Cymdeithasol Caerdydd



# Cynnwys

Neges o Groeso ........ 2
Amodau Cyn-Ymrestru ........ 4
Tasgau Sefydlu ........ 4
DATBLYGU'R IAITH GYMRAEG ........ 9
Ymrestru / Casglu MetCard Myfyrwyr ........ 11
Strwythur Rhaglen TAR 2023-24 ........ 14
Ymarfer Clinigol ........ 18
Cymdeithasau Undeb y Myfyrwyr ........ 19
Cysylltiadau Defnyddiol a gwybodaeth arall ........ 20
Gwybodaeth ar gyfer Myfyrwyr Newydd ........ 21
Canllawiau Croeso Undeb y Myfyrwyr ........ 22
Calendr Academaidd 2023/24 ........ 22

## Neges o Groeso

Croeso i raglenni TAR Cynradd ac Uwchradd ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd. Mae hyfforddi yma gyda ni ym Met Caerdydd yn cynnig cyfle cyffrous i chi ddysgu o fewn Partneriaeth Caerdydd ar gyfer Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA/ITE). Rydych yn ymuno â chymuned sydd â hanes hir a llwyddiannus ym maes addysgu, addysg a dysgu proffesiynol ac yn gyson ymhlith un o'r sefydliadau AGA uchaf ei safle yng Nghymru o ran ei gyfradd recriwtio a chanlyniadau darpar athrawon. Mae ein rhaglen yn un gyffrous ac arloesol, wedi'i chyd-lunio gyda'n hysgolion partner arweiniol, a phob un ohonyn nhw yn eu tro â rôl sylweddol a gwerthfawr i'w chwarae. Credwn fod addysgu yn bwysig, yn cynnig boddhad ac yn gofyn llawer a'n gobaith ni ydy y byddwch yn mwynhau'r her o baratoi i ymuno ag un o'r swyddi hynod bwysig.

Diben y rhaglen ydy eich helpu i ddatblygu'n athro neu athrawes hyderus, ymroddedig ac effeithiol.  Mae cymaint yn wybyddus am addysgu da ac yn ystod eich blwyddyn gyda ni, byddwch yn dysgu nifer o sgiliau. Rydyn ni'n disgwyl llawer gennych chi o ran gwaith caled, brwdfrydedd a chreadigrwydd, gwybodaeth pwnc, a'r gallu i addysgu. Mae addysgu yn ymwneud â: dysgu'r modd i ystyried cwestiwn, ac ail-addasu eich arferion a ffocysu ar brosesau dysgu disgyblion.

Mae trefniadau'r amserlen derfynol wrthi'n cael eu paratoi ac fe'u rhennir gyda chi cyn gynted ag y byddan nhw'n barod ond darllenwch y wybodaeth yn Adran 6 i ymgyfarwyddo â strwythur cyffredinol y rhaglen a'r amserlen ar gyfer Wythnos Sefydlu 1. Ar ôl i chi ymrestru, cewch gyrchu'ch amserlen campws drwy'ch porth myfyriwr.

**Os nad ydych wedi ymrestru, gwnewch hynny yn ddiymdroi, os gwelwch yn dda, neu os ydych yn cael trafferth neu'n cael eich rhwystro, rhowch wybod i'r adran Dderbyniadau yn syth. Mae'n hollbwysig eich bod yn gallu cyrchu ystod llawn o ddarpariaeth a chymorth y brifysgol.**

Yn ystod yr wythnos gyntaf, cewch gyfle i gwrdd â'ch tiwtoriaid eraill, yn cynnwys tiwtoriaid a fydd yn eich addysgu ym maes Astudiaethau Proffesiynol, Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd, (llythrennedd, rhifedd, cymhwysedd digidol a llesiant disgyblion) a Datblygu'r Iaith Gymraeg. Rhan hanfodol arall o'r sesiynau hyn ydy cwrdd â'ch cyd-ddarpar athrawon, gan fod cael cefnogaeth cyd-fyfyrwyr, wyneb yn wyneb yn ogystal ag o hirbell, yn agwedd bwysig o ddysgu sut i addysgu. Mae angen i chi fod yn ymwybodol bod cyrsiau TAR Uwchradd a Chynradd yn rhai llawn amser a dwys a dylech fod yn barod i gychwyn sesiynau am 9am a gorffen am 6 pm. Yn yr un modd, fel arfer, bydd disgwyl i chi fynychu diwrnod ysgol o 8.30am tan 4pm, felly, gwnewch unrhyw baratoadau angenrheidiol er mwyn sicrhau y gallwch ymrwymo'n llawn â holl agweddau'r rhaglen.

Mae'r llawlyfr hwn hefyd yn cynnwys gwybodaeth hanfodol am ymrestru, cymorth ariannol a chod ymddygiad y disgwylir gennych tra'n fyfyriwr ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd. Yn ogystal, ceir map, gwybodaeth am gyfleusterau llyfrgell a TGc adnoddau, manylion am ymrestru a'r diweddaraf am ofynion Hyfforddiant Addysg Gychwynnol Athrawon.

Rhaglen ddwys ydy rhaglen TAR a bydd yn gofyn i chi roi eich ymrwymiad llawn, gwytnwch a meddwl agored er mwyn i chi fanteisio i'r eithaf arni a llwyddo. Credwn yn gryf y bydd yn cynnig cychwyn rhagorol i chi allu chwarae rhan lawn a phwysig yn eich dewis broffesiwn i lunio dysgu, agweddau a rhagolygon y plant y byddwch yn eu haddysgu.

**Dr Anna Bryant**
**Cyfarwyddwr Addysg Athrawon a Phartneriaeth Dysgu Proffesiynol Caerdydd**



## Amodau Cyn-ymrestru




Cyn ymrestru ar y rhaglen, rhaid bod pob myfyrwyr wedi cwblhau proses Fanylach y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

**GWIRIAD DBS**

Sefydliad y llywodraeth ydy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd sy'n helpu i rwystro pobl anaddas rhag gweithio gyda phlant a oedolion agored i niwed.

Bydd pob darpar fyfyrwyr yn derbyn Datgeliad Manylach drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), cyn ymrestru ar y rhaglen. Os nodir problem, caiff canlyniadau'r datgeliad eu cyfeirio at banel i'w ystyried a chynghorir y darpar fyfyriwr yn unol â hynny. Rhaid i fyfyrwyr lle nad Prydain ydy eu mamwlad sy'n gwneud cais am y rhaglen, ddarparu'r wybodaeth hon drwy ffynhonnell gyffelyb gymharol o'i gwlad cartref cyn iddyn nhw ymrestru.

**Gwasanaeth Diweddaru DBS**

Argymhellir yn gryf bod ymgeiswyr yn cofrestru gyda'r Gwasanaeth Diweddaru, fel y gall y datgeliad barhau'n gyfredol drwy gyfnod eu hastudiaethau ac efallai'n berthnasol ar gyfer lleoliadau, os digwydd hynny.  Efallai, gallai rhai darparwyr lleoliad beidio â derbyn eich tystysgrif DBS gyfredol drwy Brifysgol Metropolitan Caerdydd heblaw eich bod wedi ymuno â'r Gwasanaeth Diweddaru.

Mae'r Gwasanaeth Diweddaru yn caniatáu i unigolion wneud cais i ddiweddaru eu gwiriad troseddol ac i gyflogwyr wirio bod y wybodaeth yn gyfredol a dilys os ydyn nhw'n dymuno gwneud hynny. Gall unigolion wneud cais am y Gwasanaeth Diweddaru ar yr un pryd â'r cais am DBS neu hyd at 30 diwrnod ar ôl cyhoeddi tystysgrif y DBS.

Ceir gwybodaeth bellach am y DBS a sut i gwblhau'r broses ar-lein drwy ddilyn y ddolen gyswllt hon: www.cardiffmet.ac.uk/dbs


## Tasgau Sefydlu

**Tasg 1: Tasg ymchwiliad grŵp**

**Cychwyn archwilio'ch Athroniaeth bersonol o Ddysgu ac Addysgu**

Mae Laundon, Cathcart & Greer (2020) yn datgan bod datganiad addysgol yn mynegi syniadau'r addysgwr am yr hyn sy'n gwneud i ddysgu ddigwydd. Gallan nhw fod yn adnoddau pwerus i nodi tybiaethau am addysgu, gan fynegi ein gwerthoedd fel addysgwyr a chysylltu â chymuned o fewn ac ar draws disgyblaethau (tud. 577). Drwy ddatblygu athroniaeth a'i thrafod gyda'ch cymheiriaid, tiwtoriaid pwnc / cyfnod oed neu fentoriaid ac uwch fentoriaid mewn ysgol, gallwch wella eich harferion drwy'r broses ystyried, deialog ac ymglymiad o fewn y proffesiwn addysgu a dysgu. Mae datblygu eich athroniaeth addysgu yn rhywbeth sy'n cymryd amser ac mae nifer o ffactorau yn dylanwadu ar hynny. Yn gyntaf gan eich profiadau blaenorol eich hunain, y dylanwadau fu arnoch a'ch disgwyliadau ac yn ail gan y daith yr ydych ar fin mynd arni, lle fyddwch yn athro ac yn ddysgwr (Burn, Hagger a Mutton, 2015). Mae'n bwysig eich bod yn dal ati i ystyried eich athroniaeth a'r modd y mae wedi'i llunio gan eich profiadau cyfredol a blaenorol a'r dylanwadau a fu arnoch chi, wrth i chi fynd drwy'r rhaglen a bydd hefyd raid i chi ystyried sut mae'ch syniadau yn newid wrth i'ch gwybodaeth a'ch dealltwriaeth ddatblygu drwy gydol blwyddyn TAR.

Continwwm o daith darpar athro/athrawes




Davies, D. (2003) 'Pragmatism, Pedagogy and Philosophy A Model of Thought and Action in Action in Primary Technology and Science Teacher Education.' *International Journal of Technology and Design Education* **13,** 207–221

Yn ystod eich wythnos sefydlu, hoffen ni i chi ystyried a thrafod y cwestiynau canlynol o fewn eich grŵp:

1. Pam ydych chi am fod yn athro?
2. Pa brofiadau dysgu ac addysgu a allwch chi dynnu arnyn nhw a sut mae'r rhain wedi llunio'r math o athro yr ydych am fod?
3. Pa werthoedd neu gredoau ydych chi'n meddwl sy'n bwysig i chi fel darpar athro a sut byddwch yn ceisio eu gweithredu?
4. Pa ymagweddau sydd angen i chi eu meithrin wrth i chi ddatblygu eich hunaniaeth ddeuol fel athro/dysgwr?

Byddwch yn barod i gyflwyno'ch canfyddiadau gyda'ch dosbarth a'ch tiwtor mewn sesiwn tua diwedd eich wythnos sefydlu.

Burn, K., Hagger, H. & Mutton. T. (2015) Beginning Teachers' Learning. Critical Publishing Ltd: Northwich

Laundon, M., Cathcart, A. & Greer, D.A. (2020) Teaching Philosophy Statements, Journal of Management Education, Volume 44, Issue 5, pp 577-587.

**Tasg 2: Paratoi Archwiliad Llythrennedd a Rhifedd**

O fewn wythnosau cyntaf rhaglen TAR, bydd pob myfyrwyr yn cael archwiliad llythrennedd a rhifedd (o'r enw Archwiliad 1). Adnodd ydy'r archwiliadau hyn i asesu eich sgiliau personol chi ac maen nhw'n cael eu hailadrodd ar ddiwedd y rhaglen.

Er mwyn sicrhau y cewch y cyfle gorau i lwyddo yn yr archwiliadau hyn, mae'r tiwtoriaid wedi creu deunyddiau cymorth a chwestiynau ymarfer ar Moodle* y dylid eu cwblhau ar dechrau'r rhaglen.

**TAR Cynradd**

Rhifedd: https://learn.cardiffmet.ac.uk/course/view.php?id=33169&section=12

Llythrennedd: https://learn.cardiffmet.ac.uk/course/view.php?id=33169&section=11

**TAR Uwchradd**

Rhifedd a Llythrennedd: https://learn.cardiffmet.ac.uk/mod/folder/view.php?id=1160693

**Caniateir mynediad i safleoedd Moodle 2024 perthnasol wrth ymrestru.*

Ar gyfer rhaglen TAR Uwchradd, ewch i'r wybodaeth a ddarperir gan eich tiwtoriaid pwnc: https://www.cardiffmet.ac.uk/study/newstudents/ucastt/Pages/PGCE-Secondary-Joining-Info.aspx

Bydd y Llyfryddiaeth ganlynol yn darparu deunydd darllen cefndirol rhagorol, er mwyn cynnig sylfaen gadarn ar gyfer cychwyn y rhaglen:

Capel, S., Leask, M. & Younie, S. (2019) *Learning to Teach in the Secondary School*. 8th edn. Oxon: Routledge.

Cremin, T. and Arthur, J. (2018) *Learning to Teach in the Primary School*. 4th edn. Oxon: Routledge.

Holmes, E. (2018) *A Practical Guide to Teacher Wellbeing*. London: Sage Publications Limited.

Pollard, A., Black-Hawkins, K. and Hodges, G. C. (2018) *Reflective Teaching in Schools*. 5th edn. London: Bloomsbury Academic.

Rogers, B. (2015) Classroom Behaviour: *A Practical Guide to Effective Teaching, Behaviour Management & Colleague Support*. 4th edn. London: Sage Publications Limited.

Taber, K. (2013) *Classroom Based Research and Evidence Based Practice: An Introduction.* 2nd edn. London: Sage Publications Limited.

**GWEFANNAU / PODLEDIADAU DEFNYDDIOL**

Cwricwlwm i Gymru

https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales

The Professional Standards for Teaching and Leadership in Wales
https://hwb.gov.wales/professional-development/professional-standards

Professor Graham Donaldson's Successful Futures Report (2015)
https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-03/successful-futures.pdf

Emma and Tom Talk Teaching Podcast: Co-hosted by Emma Thayer, Programme Leader PGCE Drama and Tom Breeze, Programme Leader PGCE Music.
https://blubrry.com/pgcepodcast/

Man cychwyn defnyddiol fan hyn ydy'r bennod gyda'r Athro Brendan Cropley yn trafod Ymarfer Adfyfyriol / Reflective Practice. Bydd hyn yn eich helpu i dechrau meddwl am rôl adfyfyrio ar gyfnod cynnar yn eich datblygiad.
https://blubrry.com/pgcepodcast/69778645/reflective-practice-with-professor-brendan-cropley/

# DATBLYGU'R IAITH GYMRAEG

Llongyfarchiadau ar gael lle ar raglen TAR Prifysgol Metropolitan Caerdydd! Fel tiwtoriaid ar elfen Datblygu'r Iaith Gymraeg y Rhaglen. rydyn ni'n cynnig cymorth gyda'r Gymraeg i chi ar cyn i chi gychwyn ar eich gychwyn eich hyfforddiant. Mae'r llythyr hwn yn rhoi ychydig o awgrymiadau i chi eu hystyried dros y misoedd nesaf pan fydd y cyfle'n codi.

Achubwch ar bob cyfle i ddarllen . siarad â/neu wrando ar Gymraeg yn eich cartref a'ch cymuned.

**Dechreuwyr**

• Ymunwch â Duolingo i gychwyn dysgu geiriau ac ymadroddion newydd yn y Gymraeg.

• Ymunwch â chymuned dysgu iaith 'Say Something in Welsh' ar-lein .

•Os ydych ar hyn o bryd yn gweithio mewn ysgol hyb, chwiliwch am lyfrau darllen Datblygu'r Iaith Gymraeg.

• Ceisiwch ddarllen a deall arwyddion Cymraeg yn eich cymuned

**Y rhai ag ychydig mwy o hyder a/neu fwy o brofiad**

• Gwyliwch 'Pobol y Cwm' (yr opera sebon Cymraeg ar S4C) gyda neu heb is-deitlau Saesneg.

• Ceisiwch ŵrando ar y newyddion yn Saesneg ac yna yn Gymraeg ar y radio (Radio Cymru) neu ar y teledu (S4C).

•Lawrlwythwch Ap Golwg a chlicio ar Golwg 360 am fersiwn digidol o'r cylchgrawn.

• Efallai yr hoffai rhai ohonoch chi brynu llyfrau ayb. (ar-lein neu drwy'r post o un o'r siopau canlynol: Caban ym Mhontcanna, Siop y Felin yn Yr Eglwys Newydd, Canolfan Soar ym Merthyr, Siop y Bont ym Mhontypridd, Vintage Cant a Mil yn Cathays.

• Gallech fynd i wefan 'Gwales.com' sef gwefan Cyngor Llyfrau Cymru. Chwiliwch am yr adran 'Plant a Phobl Ifanc '

**Siaradwyr mwy rhugl/More fluent speakers**

Dymа awgrymiadau am nofelau addas. Mae hwn yn gyfle da i wella eich adnoddau iaith, a gwella eich gwybodaeth pynciol am lenyddiaeth plant a mwynhau ar yr un pryd!

· Trioleg o nofelau Y Melanai gan Bethan Gwanas, y gyntaf ydy Efa

· Llinyn Trôns gan Bethan Gwanas

· Ifor Bach gan Eurig Salisbury

· Madi gan Dewi Wyn Williams

· Tom gan Cynan Llwyd

· Chwedlau'r Copa Coch: yr Horwth gan Elidir Jones

· Afallon gan Lleucu Roberts

· Yr Ynys gan Lleucu Roberts

· Gwenwyn a Gwasgod Felen gan Haf Llewellyn

· Asiant A: Her Ll gan Ani Llyn

· Y Goron yn y Chwarel gan Myrddin ap Dafydd

· Mis yr Ŷd gan Manon Steffan Ross

· Fi a Joe Allen gan Manon Steffan Ross

· Pluen gan Manon Steffan Ross

· Stwff gan Guto S. Tomos

· Henriet y Syffrajet gan Angharad Tomos.

· Academi Mr Dwm gan Jon Gower

· Gwennol gan Sonia Edwards

• Lawrlwythwch ap Sgiliau Iaith Athrawon. Gwnewch yr ymarferion sawl tro a cheisio gwella eich sgôr bob tro. Peidiwch poeni os nad ydych chi'n cael sgôr uchel i ddechrau, mae'r tasgau yn eitha heriol. Y peth pwysig ydy eich bod yn gwella eich sgôr a'ch bod yn gwneud cynnydd.

• Lawrlwythwch Ap Geiriaduron a chwiliwch am rai geiriau er mwyn dechrau ymgyfarwyddo gyda'r ap.

• Lawrlwythwch Ap Treiglo a dysgwch sut i'w ddefnyddio

• Dysgwch sut i droi eich cyfrifiadur i fersiwn Cymraeg er mwyn osgoi: 'I' yn lle i' / 'marched' yn lle 'merched' / 'rode' yn lle 'roedd' / 'plenty' yn lle 'plentyn' ayb…..

• Dysgwch sut i roi to bach ar: ô, Ô, ŷ, Ŷ, ŵ, Ŵ, î, Î, â, Â, ê, Ê, û, Û a dwy ddot ar ï, Ï.

• Dysgwch sut i ddefnyddio fersiwn ar-lein Cysill neu gallwch ystyried prynu Cysill i'ch cyfrifiadur. Mae Cysill ar nifer o gyfrifiaduron y brifysgol.

**Edrychwn ymlaen at eich croesawu i'r Brifysgol ym mis Medi!**

Sioned, Kris, Gina, Rhian a'r tîm (Kris, Sioned, Gina, Rhian a thîm yr Iaith Gymraeg)

Sioned Dafydd – Uwch Ddarlithydd : SDafydd@cardiffmet.ac.uk

Kris Sobol – Uwch Ddarlithydd: KSobol@cardiffmet.ac.uk

Dr Gina Morgan Arweinydd Llwybr pwnc Cymraeg a llwybrau cyfrwng Cymraeg:

Gmorgan@cardiffmet.ac.uk

Rhian Crooks Williams – Cydlynydd Uwchradd Cymraeg yn y sector cyfrwng Saesneg:

Arweinydd Llwybr Daearyddiaeth TAR: RECrooks-Williams@cardiffmet.ac.uk

D.S. Os nad ydych eisoes wedi cwblhau'ch Ffurflen Rhuglder yn y Gymraeg, gwnewch hynny yn ddiymdroi.

- **Welsh Prof**: Cardiff Partnership for ITE: Welsh Proficiency Form 2023-2024 | Partneriaeth Caerdydd ar gyfer AGA: Ffurflen Rhuglder yn y Gymraeg 2023-2024. – mae angen i fyfyrwyr cyfrwng Cymraeg a Saesneg gwblhau'r Ffurflen Rhuglder yn y Gymraeg.

## Ymrestru / Casglu MetCard Myfyrwyr

Mae ymrestru yn broses bwysig sy'n cadarnhau'ch statws fel myfyriwr.

Gallwch gwblhau'r broses hunan-ymrestru ar-lein ar un rhyw gyfrifiadur drwy ein system Hunan-Wasanaeth. Sylwch, er mwyn hunan-ymrestru, rhaid mai'ch statws ydy Diamod Cadarn (UF) a rhaid bod eich gwiriad DBS manylach wedi'i glirio a'i ddilysu gan yr adran 'Derbyniadau'.

Byddwch yn derbyn e-bost yn eich hysbysu pan fyddwch yn gymwys i ymrestru ar-lein. Am wybodaeth a chanllawiau ar y broses hon, ewch i'n tudalen ymrestru – www.cardiffmet.ac.uk/enrolment.

Mae'r broses hon yn hanfodol gan y bydd yn caniatáu i chi gyrchu'ch benthyciad myfyriwr (os ydych wedi gwneud cais amdano), ffioedd, systemau TG Met Caerdydd ac yn eich galluogi i gael eich MetCard Myfyriwr.

Byddwch hefyd yn derbyn y Llawlyfr Rhaglen yn ystod eich Wythnos Sefydlu. Mae'r Llawlyfr yn hanfodol ar gyfer y Rhaglen a dylid ei gadw drwy gydol cwrs eich astudiaeth. Bob blwyddyn academaidd, darperir gwybodaeth ychwanegol perthnasol i'r cyfryw lefel. Mae'r Llawlyfr yn cynnig cyfarwyddyd ar Reolau, Rheoliadau a Gweithdrefnau a chyfarwyddyd ar ddysgu ar gyfer ymarfer gyda gwybodaeth am yr holl fodiwlau i'w hastudio a rhestrau darllen.

**I ymrestru ar-lein**

Os ydych yn fyfyriwr rhyngwladol, bydd gofyn i chi gyflwyno dogfennaeth cyn cael cymeradwyaeth i ymrestru ar-lein. Am ragor o wybodaeth am ymrestru myfyrwyr rhyngwladol a rhestr o ddogfennau y bydd angen i chi eu cyflwyno, ewch i dudalennau myfyrwyr rhyngwladol neu gysylltu â thudalennau myfyrwyr rhyngwladol neu gysylltu â'r Tîm Cydymffurfio ar immigrationregs@cardiffmet.ac.uk.

Cymorth Ymgynghorol Myfyrwyr Byd-Eang

- Rhyngwladol - Croeso (sharepoint.com)
- Cyngor Llesiant Rhyngwladol Gwasanaeth Ymgynghorol Myfyrwyr Byd-Eang
- Cyngor Academaidd Rhyngwladol

Cysylltiadau Ymgynghorol Myfyrwyr Byd-Eang

- Cyngor ar Lesiant a Mewnfudo– intstudentadvice@cardiffmet.ac.uk
- Cyngor Academaidd Rhyngwladol – intacademicadvice@cadiffmet.ac.uk

**Gwasanaethau Llyfrgell a Gwybodaeth**

Cewch gyrchu Gwasanaethau Llyfrgell a Gwybodaeth ar ôl i chi gwblhau'ch ymrestru ar-lein. Anfonir e-bost atoch i gadarnhau hyn ynghyd â'ch manylion mewngofnodi Met Caerdydd. I gael gweld y cyfleusterau a'r gwasanaethau, ewch i: www.cardiffmet.ac.uk/library.

**Eich MetCard fel Myfyriwr**

Mae'ch MetCard yn caniatáu i chi fynd i mewn i bob adeilad ar y prif gampws a thrwy'r drysau. Gallwch hefyd ychwanegu arian at eich MetCard er mwyn i chi allu cyrchu a thalu am ddefnyddio argraffydd hunan-wasanaeth, llun-gopïwyr a gwasanaethau Stiwdio Print. Am ragor o fuddion MetCard, cliciwch yma.

**Ffioedd**

Am ragor o wybodaeth am ffioedd dysgu, ewch i'n Tablau Ffioedd. Rhestrir unrhyw gostau ychwanegol ynghlwm wrth eich rhaglen, byddan nhw'n cael eu rhestru ar www.cardiffmet.ac.uk/additionalcosts. Cofiwch wirio'r rhain er mwyn sicrhau eich bod yn ymwybodol o unrhyw gostau ychwanegol cysylltiedig â'ch cwrs.

Ceir manylion am ffioedd myfyrwyr rhyngwladol yma. Dylech fod yn ymwybodol o'r costau hyn eisoes.

# Strwythur Rhaglen TAR 2023-24

| Week starting | Cardiff Met week | PGCE week | MON | TUE | WED Secondary | WED Primary | THU | FRI | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 04.09.23 | 7 | 1 | | | | | | Directed study | |
| 11.09.23 | 8 | 2 | | | | | | | |
| 18.09.23 | 9 | 3 | | | SLT DAY 1 Secondary | SLT DAY 1 Primary | | | |
| 25.09.23 | 10 | 4 | | | SLT DAY 2 Secondary | | | | |
| 02.10.23 | 11 | 5 | | | | SLT DAY 2 Primary | | | |
| 09.10.23 | 12 | 6 | | | SLT DAY 3 Secondary | | | | |
| 16.10.23 | 13 | 7 | | | | SLT DAY 3 Primary | | | |
| 23.10.23 | 14 | 8 | | | SLT DAY 4 Secondary | | | | |
| 30.10.23 | 15 | 9 | Directed study | Directed study | Directed study | Directed study | Directed study | Directed study | Half Term |
| 06.11.23 | 16 | 10 | | | | SLT DAY 4 Primary | | | |
| 13.11.23 | 17 | 11 | | | SLT DAY 5 Secondary | SLT DAY 5 Primary | | | |
| 20.11.23 | 18 | 12 | | | | | | | |
| 27.11.23 | 19 | 13 | | | SLT DAY 6 Secondary | | | | |
| 04.12.23 | 20 | 14 | | | | SLT DAY 6 Primary | | | |
| 11.12.23 | 21 | 15 | | | SLT DAY 7 Secondary | | | | |
| 18.12.23 | 22 | 16 | | | | SLT DAY 7 Primary | | Make up school day | |
| 25.12.23 | 23 | | CHRISTMAS HOLIDAYS | | | | | | |
| 01.01.24 | 24 | | CHRISTMAS HOLIDAYS | | | | | | |
| 08.01.24 | 25 | 17 | | | SLT DAY 8 Secondary | | | | |
| 15.01.24 | 26 | 18 | | | | SLT DAY 8 Primary | | | |
| 22.01.24 | 27 | 19 | | | SLT DAY 9 Secondary | | | | |
| 29.01.24 | 28 | 20 | | | | SLT DAY 9 Primary | | | |
| 05.02.24 | 29 | 21 | | | SLT DAY 10 Secondary | | | | |
| 12.02.24 | 30 | 22 | Directed study | Directed study | Directed study | Directed study | Directed study | Directed study | Half Term |
| 19.02.24 | 31 | 23 | | | | SLT DAY 10 Primary | | | |
| 26.02.24 | 32 | 24 | | | SLT DAY 11 Secondary | | | | |
| 04.03.24 | 33 | 25 | | | | SLT DAY 11 Primary | | | |
| 11.03.24 | 34 | 26 | | | SLT DAY 12 Secondary | | | | |
| 18.03.24 | 35 | 27 | | | | SLT DAY 12 Primary | | | |
| 25.03.24 | 36 | | EASTER HOLIDAYS | | | | | | |
| 01.04.24 | 37 | | EASTER HOLIDAYS | | | | | | |
| 08.04.24 | 38 | 28 | | | | | | | |
| 15.04.24 | 39 | 29 | | | | | | | |
| 22.04.24 | 40 | 30 | | | | | | | |
| 29.04.24 | 41 | 31 | Make up school day | Make up school day | SLT DAY 13 Secondary | SLT DAY 13 Primary | | | |
| 06.05.24 | 42 | 32 | BANK HOLIDAY | E | E | E | E | E | |
| 13.05.24 | 43 | 33 | E | E | E | E | E | E | |
| 20.05.24 | 44 | 34 | E | E | SLT DAY 14 Secondary | SLT DAY 14 Primary | E | E | |
| 27.05.24 | 45 | 35 | BANK HOLIDAY | Directed study | Directed study | Directed study | Directed study | Directed study | Half Term |
| 03.06.24 | 46 | 36 | | | SLT DAY 15 Secondary | SLT DAY 15 Primary | | | |
| 10.06.24 | 47 | 37 | | | | | | | |
| 17.06.24 | 48 | 38 | Make up school day | Make up school day | Make up school day | Make up school day | Make up school day | Make up school day | |

**Key:**

| | |
|---|---|
| | University-led training |
| | School-led training |
| | School days |
| E | Enrichment days |

# Amserlen TAR Wythnos Sefydlu 1

Bydd wythnos sefydlu holl fyfyrwyr TAR yn cychwyn **Ddydd Llun, Medi 4ydd 2023.** Bydd eich tymor cyntaf fel myfyrwyr newydd yn cychwyn gydag Wythnos Sefydlu 1, pan fyddwch yn setlo yn eich llety, eich cwrs ac i fywyd myfyriwr. Siediwl o ddigwyddiadau ydy amserlen Wythnos Sefydlu 1 wedi'i lunio er mwyn i chi ymgyfarwyddo â Met Caerdydd, ei gyfleusterau a'ch cyd-fyfyrwyr. Cewch gyfle i fynychu ystod o ddigwyddiadau yn ymwneud â'ch rhaglen, gwasanaethau llyfrgell, TG, gwasanaethau myfyrwyr ac Undeb y Myfyrwyr. Byddwch hefyd yn cwrdd â'ch tiwtor personol i wneud eich pontio academaidd mor llyfn â phosibl.

**Diwrnod Sefydlu 1 - Dydd Llun 4ydd Medi 2023**

**TAR CYNRADD – Wythnos Sefydlu**

| *Dyddiad* | *AMSER* | TAR CYNRADD | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | *GRŴP 1-WM* | *GRŴP 2* | *GRŴP 3* | *GRŴP 4* | *GRŴP 5* | *GRŴP 6* | *GRŴP 7* | *GRŴP 8* |
| Dydd Llun, Medi 4ydd, 2023 | 09.00-10.00 | CROESO I BRIFYSGOL MET CAERDYDD LT1 | | | CYFLWYNO CWRICWLWM I GYMRU LT4 | | | CROESO I MET CAERDYDD (Gwasanaethau Myfyrwyr) LT2 | |
| | 10.00-11.00 | CROESO I BRIFYSGOL MET CAERDYDD (Gwasanaethau Myfyrwyr) LT2 | | | CROESO I'R CWRS TAR LT1 | | | CYFLWYNO CWRICWLWM I GYMRU | |
| | 11.00-11.30 | CASGLU CARDIAU 'MET CARD' I GRWPIAU 1, 2, 3 | | | | | | | |
| | 11.30-12.30 | CYFLWYNO CWRICWLWM I GYMRU LT4 | | | CROESO I BRIFYSGOL MET CAERDYDD (Gwasanaethau Myfyrwyr) LT2 | | | CROESO I'R CWRS TAR LT1 | |
| | 12.30-13.00 | CASGLU CARDIAU 'MET CARD' I GRWPIAU 4, 5, 6 | | | | | | | |
| | 13.00-14.00<br>14.00-15.00 | 'TORRI'R IA' ADEG Y SEFYDLU, GWEITHIO'N SMART A MEDDYLGARWCH (Grwpiau Tiwtor Personol a Grwpiau Astudiaethau Proffesiynol/Tiwtorial, mewn ystafelloedd seminar) | | | | | | | |
| | 1500-1600 | CASGLU CARDIAU 'MET CARD' I GRWPIAU 7 & 8 (15.00 – 15.30<br>CYFARFOD EICH TIWTOR PERSONOL (I RAI Â THIWTOR PERSONOL SYDD DDIM YN DIWTOR ASTUDIAETHAU PROFFESIYNOL IDDYN NHW) | | | | | | | |

| Dyddiad | AMSER | TAR CYNRADD | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | GRŴP 1-WM | GRŴP 2 | GRŴP 3 | GRŴP 4 | GRŴP 5 | GRŴP 6 | GRŴP 7 | GRŴP 8 |
| Dydd Mawrth, Medi 4ydd, 2023 | 09.00-10.00<br>10.00-11.00 | LLC | LLC | HWB / HYB | CERDD | LLC | GWYDDORAU | DAWNS | M&N |
| | 11.00-12.00 | | | | | | | | |
| | 12.00-13.00<br>13.00-14.00 | LLC | LLC | M&N | LLC | GWYDDORAU | DAWNS | CERDD | HWB / HYB |
| | 14.00-15.00 | | | | | | | | |
| | 15.00-16.00<br>16.00-17.00 | HWB / HYB | GWYDDORAU | LLC | DAWNS | LLC | LLC | M&N | CERDD |

| Dyddiad | AMSER | TAR CYNRADD | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | GRŴP 1-WM | GRŴP 2 | GRŴP 3 | GRŴP 4 | GRŴP 5 | GRŴP 6 | GRŴP 7 | GRŴP 8 |
| Dydd Mercher, Medi 6ed, 2023 | 09.00-10.00 | PROF STUDIES LEC TURE- EDUCATIONAL LANDSCAPE AND TACKLING EDUCATION INEQUALITY AND POVERTY | | | | | | | |
| | 10.00-11.00 | WLD | | | | PROF STUDIES LEC - CHILD DEVELOPMENT 1 | | | |
| | 11.00-12.00 | | | | | | | | |
| | 12.00-13.00 | PROF STUDIES LECTURE - CURRICULUM CYMREIG AND WL REQUIREMENTS | | | | | | | |
| | 13.00-14.00 | PROF STUDIES LEC - CHILD DEVELOPMENT 1 | | | | WLD | | | |
| | 14.00-15.00 | | | | | | | | |
| | 15.00-16.00<br>16.00-17.00 | HWB | M&N | ART | LLC | DT | HUMS | LLC | SCIENCE |

| *Dyddiad* | *AMSER* | TAR CYNRADD | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | *GRŴP 1-WM* | *GRŴP 2* | *GRŴP 3* | *GRŴP 4* | *GRŴP 5* | *GRŴP 6* | *GRŴP 7* | *GRŴP 8* |
| Dydd Iau, Medi 7fed 2023 | 09.00-10.00<br>10.00-11.00 | M&N | HWB / HYB | CERDD | LLC | GWYDDORAU | LLC | M&N | DAWNS |
| | 11.00-12.00 | WLD | | | | HYB – YSTYRIED EMOSIYNAU | | | |
| | 12.00-13.00 | | | | | | | | |
| | 13.00-14.00 | HYB – YSTYRIED EMOSIYNAU | | | | WLD | | | |
| | 14.00-15.00<br>15.00-16.00 | DAWNS | M&N | GWYDDORAU | HWB / HYB | HUMS | LLC | DT | HUMS |

| TAR CYNRADD |
|---|
| ASTUDIAETHAU DAN GYFARWYDDYD – DYDD GWENER, Medi 8fed 2023 |

## TAR UWCHRADD – Wythnos Sefydlu 1

| **4/9/23** | **Mathemateg, AG Gwyddoniaeth** | **C&D, TGCh, Saesneg, Ieithoedd Tramor Modern, Cymraeg, Cerdd, Drama** | **Celf, Hanes, Daearyddiaeth** |
|---|---|---|---|
| 0900 - 1000 | Croeso i TAR – Darlithfa (LT) 1 | Cyflwyniad i'r Cwricwlwm i Gymru LT2 | Croeso i Met Caerdydd LT4 |
| 1000- 1100 | Croeso i Met Caerdydd LT1 | Croeso i TAR LT2 | Cyflwyniad i'r Cwricwlwm i Gymru LT4 |
| 1130-1230 | Cyflwyniad i'r Cwricwlwm i Gymru LT1 | Croeso i Met Caerdydd LT2 | Cyflwyniad i LT4 |
| 1300- 1400 | Casglu MetCard - manylion i'w cadarnhau yn y darlithoedd bore | | |
| 1400-1600 | Astudiaethau pwnc - yr ystafelloedd i'w cyhoeddi yn y darlithoedd bore | | |
| **5/9/23** | **Mathemateg, AG, Gwyddoniaeth, C&D, TGCh** | **Saesneg, Ieithoedd Tramor Modern, Cymraeg, Cerdd, Drama, Celf, Hanes, Daearyddiaeth, Addysg Grefyddol** | |
| 0900- 1100 | Astudiaethau Pwnc | | |
| 1100-1200 | Llythrennedd (paratoi awdit) | Rhifedd (paratoi awdit) | |
| 1300-1400 | Rhifedd (paratoi awdit) | Llythrennedd (paratoi awdit) | |
| 1400-1600 | Astudiaethau pwnc | | |
| **6/9/23** | **Mathemateg, AG, Gwyddoniaeth, C&D, TGCh** | **Saesneg, Ieithoedd Tramor Modern, Cymraeg, Cerdd, Drama, Celf, Hanes, Daearyddiaeth, Addysg Grefyddol** | |
| 0900-1100- | Astudiaethau pwnc | | |
| 1100-1200 | Tirweddau addysgol, mynd i'r afael ag anghydraddoldebau addysgol a thlodi | | |
| 1300-1400 | Y Cwricwlwm Cymreig a gofynion y Gymraeg | | |
| 1400- 1600 | Grwpiau seminar pwnc cymysg | | |
| **7/9/23** | **Mathemateg, AG, Gwyddoniaeth, C&D, TGCh** | **Saesneg, Ieithoedd Tramor Modern, Cymraeg, Cerdd, Drama, Celf, Hanes, Daearyddiaeth, Addysg Grefyddol** | |
| 0900-1100 | Astudiaethau pwnc | | |
| 1100-1200 | Cymraeg | Cyflwyniad i gydraddoldeb ac amrywiaeth mewn ysgolion | |
| 1300-1400 | Cyflwyniad i gydraddoldeb ac amrywiaeth mewn ysgolion | Cymraeg | |
| 1400-1600 | Grwpiau seminar pwnc cymysg | | |
| **8/9/23** | **Astudiaeth dan Gyfarwyddyd** | | |

## Ymarfer Clinigol

Cyfeirir at raglenni Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA/ITE) fel 'Ymarfer Clinigol' (CP) ym model Partneriaeth Caerdydd.

Mae Ymarfer Clinigol yn elfen greiddiol ac yn rhan annatod o raglen TAR, sy'n galluogi darpar athrawon i ddatblygu eu sgiliau addysgu ymarferol yn ogystal â phrofi a datblygu eu damcaniaethau eu hunain o addysgu a dysgu.

Yn yr un modd â meysydd eraill y Rhaglen, lluniwyd Ymarfer Clinigol ar y cyd ag Ysgolion/Cynghreiriau Arweiniol Partneriaeth (LPS/A), a bydd darpar athrawon yn cael ymarfer clinigol mewn dau leoliad drwy gydol y flwyddyn (CP1 a CP2). Bydd pob myfyriwr yn cynnal un o'u lleoliadau mewn LPS/A. Ysgolion ydy'r rhain a nodwyd yn ddarparwyr blaenllaw addysg a datblygiad proffesiynol ac yn cynnal eich dyddiau hyfforddiant dan arweiniad ysgol (dyddiau SLT). Bydd y lleoliadau hyn wedi'u lleoli'n bennaf o fewn rhanbarthau'r Consortiwm De Canolog (CSC) a Gwasanaeth Cyflawni Addysg (EAS).

D.S. Os nad ydych chi eisoes wedi cwblhau'r ffurflen lleoliad ysgol ar-lein, mae'n hollbwysig eich bod yn gwneud hynny yn ddiymdroi.

- **Llwybr TAR Cynradd:** PGCE Primary Placement Information Form 2023-24 / Ffurflen Gwybodaeth Lleoliad Cyntaf TAR Cynradd 2023-24

- **Llwybr TAR Uwchradd**: PGCE Secondary Placement Information Form 2023-2024 / Ffurflen Gwybodaeth Lleoliad TAR Uwrchradd 2023-24.

## Cymdeithasau Undeb y Myfyrwyr

Beth ydy cymdeithas? Ai grŵp o unigolion dan arweiniad myfyrwyr â chyd-ddiddordeb, grŵp o unigolion o'r un anian gyda'r un diddordebau mewn maes arbennig, boed hynny yn hobi, camp, diwylliant, ffydd neu ddiben?

Y Gymdeithas ydy'r man i ddod ynghyd, mae ffi ymaelodi ond mae 100% o'r arian hwn yn mynd nôl i'r gymdeithas er budd y gymdeithas. Gall bod yn aelod eich helpu i ddod at eich gilydd i ddatblygu cyfeillgarwch, cymryd rhan mewn gweithgareddau gyda'ch gilydd ac, mewn rhai achosion, gystadlu mewn cystadlaethau.

Dros y flwyddyn ddiwethaf rydyn ni wedi bod wrthi'n ail adeiladu cymunedau ein cymdeithasau ar ôl effeithiau Covid. Gallwch weld y cyfan o'n cymdeithasau cyfredol ar y wefan https://www.cardiffmetsu.co.uk/societies/

Cadwch lygad am sesiynau blasu y bydd y cymdeithasau unigol yn eu cynnig yn ystod wythnos y glas a hefyd, croeso i chi ymuno unrhyw bryd o hyn ymlaen.

Os na fyddwch chi'n dod o hyd i gymdeithas sydd o ddiddordeb i chi does dim byd yn eich rhwystro rhag sefydlu un eich hun. Mae angen 10 myfyriwr ar bob cymdeithas, 3 fel pwyllgor. Mae’r pwyllgor yn cynnwys y rolau a ganlyn:-
Cadeirydd: Llywydd, Arweinydd, Cadeirydd, pa enw bynnag a ddewiswch, dyma arweinydd cyffredinol y gymdeithas.

Ysgrifennydd: Yn delio gyda'r holl waith papur sy'n berthnasol i'r gymdeithas.
Trysorydd: Yn gyfrifol am y gronfa losin neu'r deisen
Yn rheoli'r holl drafodion ariannol a sicrhau na fydd gorddrafft yn y cyfrifon.

Petaech am wybod rhagor am hyn, dewch draw i swyddfa Undeb y Myfyrwyr yn Llandaf neu Cyncoed i gael sgwrs.

## Cysylltiadau defnyddiol a gwybodaeth arall

**PWYSIG:**

Dylech nodi bod 120 o ddyddiau profiad ysgol yn ofyniad statudol o unrhyw Raglen TAR AGA (gweler strwythur y rhaglen). Mae'r dyddiadau uchod â blaenoriaeth dros unrhyw dyddiadau tymor Prifysgol Metropolitan Caerdydd yr ydych wedi dderbyn.

Ni ddylid trefnu unrhyw wyliau tan i chi fod yn llwyr ymwybodol o holl ddisgwyliadau'r rhaglen.

**Amserlen**

Bydd y ddolen gyswllt hon yn rhoi mynediad i'ch amserlen derfynol. Dylech fod wedi ymrestru eisoes cyn i chi allu cyrchu'r ddolen gyswllt hon, a bydd rhywun yn cysylltu â chi pan fydd y wybodaeth ar gael.

**Ymglymiad Byd-Eang**

Cymorth a chyngor ar gyfer myfyrwyr rhyngwladol ar wneud cais am fisa, byw yn y DU, trefnu llety a manteisio ar y Gwasanaeth Croeso yn y Maes Awyr. Bydd Ymglymiad Byd-Eang yn cynnig cymorth lles a chyngor dysgu drwy gydol eich cwrs. Hefyd ewch i'n cwestiynau mynych https://www.cardiffmet.ac.uk/international/study/Pages/default.aspx

**DBS**

Os bydd eich rhaglen yn golygu eich bod yn dod i gysylltiad â phlant a phobl ifanc neu bobl agored i niwed, yna bydd gofyn i chi gael gwiriad cofnod troseddol fel rhan o'ch cynnig.

**Costau Ychwanegol Cwrs**

Mae costau ychwanegol yn dreuliau gorfodol neu opsiynol, yn ychwanegol i ffioedd dysgu sydd angen i fyfyrwyr eu talu er mwyn cymryd rhan lawn yn eu hastudiaethau a'u cwblhau. Mae hyn yn cyfeirio at bethau megis cyfarpar, ymweliadau, lleoliadau a gwiriadau DBS. Mae gan bob rhaglen wahanol gostau ychwanegol.

**Llety**

Ar ôl i chi dderbyn cynnig o lety ac i chithau ei dderbyn, cewch e-bost yn eich hysbysu pryd gallwch chi symud i mewn. Sylwch na fyddwch yn gallu cyrchu'r rhyngrwyd yn y neuaddau preswyl heblaw eich bod wedi cwblhau'r broses ymrestru yn llwyddiannus. Cynhelir amrywiaeth o ddigwyddiadau drwy gydol y cyfnod Sefydlu a thrwy gydol y tymor cyntaf, a chewch wybodaeth am hyn gan yr adran Llety ar ôl i bethau gael eu cadarnhau.

**Gwasanaethau Myfyrwyr**

I gael help yn ystod eich hamser gyda ni o ran eich iechyd, lles, ffordd o fwy a darpar yrfa. Y nod ydy cynnig yr holl help sydd ei angen arnoch chi i sicrhau bod eich astudiaethau mor bleserus a llwyddiannus â phosibl. Mae Gwasanaethau hefyd yn cynnwys cwnsela, anabledd a chaplaniaeth.

**Cyllid Myfyrwyr**

Am wybodaeth ar Fenthyciadau Ffioedd Dysgu a Benthyciadau Cynhaliaeth, grantiau na ellir mo'i had-dalu, bwrsarïau ac ysgoloriaethau sydd ar gael.

**Cyfleusterau a Chwaraeon Met Caerdydd**

Undeb y Myfyrwyr Met Caerdydd yn cynnwys Cymdeithasau Undeb y Myfyrwyr, Clybiau Chwaraeon, Undeb y Myfyrwyr a'r gallu i gyrchu cyngor a chymorth annibynnol

**Mapiau'r Campws, Llochesi Beiciau & Met Rider**

Mae Met Caerdydd yn cynnig ei wasanaeth bws ei hun sef y Met Rider, am ragor o wybodaeth ac i gyrchu'r cais, ewch i www.cardiffmet.ac.uk/MetRider. Hefyd, mae gennym ni lochesi Storio Beiciau ar bob campws ac mae cyfleusterau newid a chael cawod ar gael. Mae'r llochesi dan glo a dim ond drwy ddefnyddio'ch MetCard y cewch fynediad iddyn nhw ar ôl i chi ofyn am ganiatâd drwy'r i-parth.

Rhith Deithiau

Ewch ar y rhith daith o gwmpas ein campws a'n cyfleusterau.


Llawlyfr Myfyrwyr

Llawlyfr Academaidd

Polisi Derbyn

Cwestiynau Mynych

Achwynion



### Gwybodaeth ar gyfer Myfyrwyr Newydd

Mae llawer o wybodaeth ddefnyddiol ar Wefan Gwybodaeth am Ymuno â Chwrs i'ch helpu gyda'ch cynllunio. Dewiswch eich lefel mynediad ar y wefan i wybod rhagor ac i gyrchu eich gwybodaeth ymuno bwysig.

### Gwasanaethau Myfyrwyr

Mae Gwasanaethau Myfyrwyr yn cynnig cymorth a chyfarwyddyd, gan gynnwys cwnsela a iechyd meddwl, cymorth anabledd a rheoli arian.

### Canllaw Croeso Undeb y Myfyrwyr

Canllaw rhyngweithiol i'ch helpu i we-lywio'ch taith i mewn a thrwy eich bywyd yn y brifysgol. Ewch ar y rhith daith a mwynhau pob adran a luniwyd i'ch helpu i ddod i adnabod Met Caerdydd.

Yr hyn sydd angen i chi ei wybod cyn i chi fynd

## Calendr Academaidd 2023/24

Calendr Academaidd 2023/2024

# Campws Cyncoed




## Allwedd

1. Y Brif Dderbynfa a Bwyty K1
2. Canolfan Ddysgu
3. Tŷ'r Coleg
4. Tŷ Warwick a Swyddfa'r Neuaddau
5. Queenswood
6. Neuadd Chwaraeon
7. Pwll Nofio
8. Tŷ Sîn Trosedd
9. Undeb y Myfyrwyr
10. Tŷ Ymchwil
11. Stiwdios y Gampfa
12. Caffi'r Fainc
13. Campfa Russell Rees
14. Bloc V
15. Campfa Syd Arron
16. Caffi'r Trac
17. Parth-g
18. Desg Gymorth TG (llawr Cyntaf)
19. Swyddfa Rhaglenni a Addysgir

- Llythyren yr adeilad
- Adeilad y Brif Fynedfa
- Neuaddau
- Parcio
- Rhesel beiciau
- Safe bws
- Caffi
- Ystafell weddi aml-ffydd

Mae ein holl ystafelloedd yn defnyddio'r un fformiwla enwi – *LlawrAdeilad . RhifYstafell.* Felly os ydych chi wedi chwilio am 01.18, ewch i adeilad O, dringo i'r llawr cyntaf, a dod o hyd i ystafell rhif 18. Neu am B0.10 ewch i adeilad B, aros ar y llawr gwaelod a chwilio am ystafell 10. Yn y fformiwla enwi, mae 'CY' yn cyfeirio at Cyncoed.

Cardiff Metropolitan University | Prifysgol Metropolitan Caerdydd

Wythnos groeso Welcome week 2023